Datganiad Hygyrchedd Y Talbot

Cyflwyniad

Mae'r Talbot yn Dafarn hanesyddol teuluol sydd wedi'i lleoli ar brif sgwâr Tregaron, Ceredigion. Mae'r busnes yn cynnwys Tafarn yn llawn cymeriad, bwyty ar wahân, ystafell ddigwyddiadau, 13 o ystafelloedd gwely godidog, lolfa, ystafell fwyta breifat, gardd gwrw ddeniadol a maes parcio ceir preifat.

Mae'r Talbot wedi'i hadnewyddu'n helaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i gynnig cyfleusterau o ansawdd uchel drwyddi draw wrth gadw cymeriad yr Adeilad Rhestredig Gradd 2 hanesyddol hwn.

Mae'r adnewyddiad helaeth wedi rhoi'r cyfle i gynnig mynediad hawdd ar draws y llawr gwaelod i'n gwesteion. Mae hyn yn cynnwys adeiladu toiled hygyrch newydd i'r cyhoedd ac ystafell wely hygyrch ar y llawr gwaelod. Gan hynny gall gwesteion gyda symudedd cyfyngedig ddefnyddio holl gyfleusterau'r adeilad ar y llawr gwaelod pa bryd bynnag y byddant yn ymweld am ddiod neu bryd o fwyd neu'n aros dros nos.

Cyn Cyrraedd

Mae ein datganiad hygyrchedd ar gael ar ein gwefan www.ytalbot.com.

Mae Y Talbot wedi'i lleoli ar y prif sgwâr yn nhref farchnad fechan Tregaron, Ceredigion.

Mae gan Dregaron dri banc (Barclays, Lloyds, Nat West) a pheiriant arian 24 awr. Ceir hefyd fferyllfa, Swyddfa'r Post, archfarchnad a Meddygfa.

Mae'r Uned Ddamweiniau agosaf yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, sy'n 18 milltir ar y ffordd.

Mae bysiau'n rhedeg yn rheolaidd i Lambed ac Aberystwyth (gweler y wefan am fanylion). Mae'r orsaf drenau agosaf yn Aberystwyth, gyda threnau bob dwy awr i'r Amwythig, Birmingham ac Euston. Rydym hefyd ychydig llai na 30 milltir o orsaf Caerfyrddin.

Cyrraedd a Chyfleusterau Parcio Ceir

Gellir parcio ceir am ddim ar y prif sgwâr yn union o flaen Y Talbot. Ceir parcio preifat a lle anabl wrth gefn Y Talbot, ewch i mewn ar ochr y dafarn, gan ddilyn yr arwydd "Parcio i Westeion". Mae'r maes parcio ar ychydig o lethr ond nid oes unrhyw risiau.

Ceir dwy fynedfa ar flaen Y Talbot, sef drws y dafarn (ar yr ochr chwith wrth wynebu'r adeilad) a phrif fynedfa i'r gwesty/drws y dderbynfa trwy'r portico â phileri.

Nid oes unrhyw risiau o'r maes parcio na'r sgwâr i ddrws y gwesty. Yn fewnol nid oes unrhyw risiau na rampiau yn unrhyw le ar lawr gwaelod yr adeilad.

Signal ffonau symudol – dim signal O2; mae gan ddarparwyr eraill signal gweddol.

WiFi - Mynediad WiFi am ddim yn yr ardaloedd cyhoeddus ac ystafelloedd y gwesteion.

Nid oes ffonau yn ystafelloedd y gwesteion, gallwch ofyn am ddefnyddio ffôn yn y Dderbynfa.

Croesawir Cŵn Tywys.

Prif Fynedfa

Mae mynediad i dderbynfa'r gwesty trwy'r brif fynedfa o dan y portico. Mae'r fynedfa yn wastad heb unrhyw risiau. Dylid cofrestru wrth y dderbynfa (ar yr ochr chwith wrth fynd i mewn). Canwch y gloch os nad oes unrhyw un yno.

Mae'r goleuadau yn gymysgedd o lampau to, goleuadau crog a goleuadau i fyny.

Teils yw arwyneb y llawr gwaelod yn bennaf yn y coridorau, mae llawr gwrthlithro yn y toiledau a slabiau llechi mawr yn y dafarn. Mae carped ar lawr y lolfa, y bwyty a'r ystafell ddigwyddiadau.

Mannau Cyhoeddus/Toiledau

Mae toiled hygyrch newydd wedi'i adeiladu i'r diben ar y llawr gwaelod ger y toiledau cyhoeddus eraill. Nid oes unrhyw risiau na rampiau unrhyw le ar y Llawr Gwaelod. Mae cyfleusterau newid babanod ar gael.

Ystafell Wely Hygyrch

Mae ystafell wely Llawr Gwaelod ar gael wedi'i chynllunio'n benodol wrth ystyried hygyrchedd, ac wedi'i hadeiladu i'r diben. Fe'i hagorwyd ym mis Mai 2013 gan y Farwnes Tanni Grey-Thompson. Mae gan yr ystafell wely gyfleusterau ensuite dwbl neu i ddau gydag ystafell wlyb gyda chawod a sedd. Mae gorchudd llawr yr ystafell wely wedi'i gynllunio i roi ystyriaeth i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae mynediad i gwrt bach yn uniongyrchol o'r ystafell wely trwy ddrysau patio. Ceir mynediad i'r Ystafell Hygyrch ar y Llawr Gwaelod o'r dderbynfa ar hyd coridor. Nid oes unrhyw risiau.

Cynteddau, Grisiau, Pen Grisiau

Nid oes gennym lifftiau, grisiau symudol na systemau sain. Ac eithrio Ystafell Hygyrch y Llawr Gwaelod rhaid cyrraedd holl ystafelloedd gwely eraill y gwesteion naill ai i fyny'r prif risiau o'r dderbynfa neu'r cwrt cefn i'r ystafelloedd yn yr anecs. Mae dau lawr uchaf yn y prif westy a gellir eu cyrraedd trwy un set o risiau. Mae'r grisiau a'r pen grisiau wedi'u carpedu.

Larymau tân

Ceir larymau tân a mwg gyda goleuadau'n fflachio yn ogystal â sain, ym mhob ystafell a mannau cyhoeddus. Mae rhai drysau wedi'u gosod â dyfeisiau sy'n eu cau yn awtomatig pan fydd y larwm tân yn seinio. Mae'r gweithdrefnau gwacau wedi'u nodi ar gefn drws pob ystafell i westeion.

Lolfa

Mae lolfa'r gwesteion wedi'i charpedu, mae golau ar ffurf goleuadau uwchben canolog a lampau bwrdd.

Ystafelloedd Gwely i Westeion

Mae'r holl ystafelloedd gwely yn rhai ensuite gyda chawod neu gawod a bath. Mae'r holl ystafelloedd gwely wedi'u carpedu. Mae'r holl ystafelloedd gwely â lloriau teils neu finyl gwrthlithro.

Mae cot teithio a gwelyau bach ar gael ar gyfer teuluoedd.

Caniateir cŵn o fewn ystafelloedd penodol.

Cyfleusterau Awyr Agored

Ceir storfa feiciau ddiogel, parcio i feiciau a beiciau modur diogel.

Mae gan yr ardd gwrw helaeth deras is sy'n hygyrch o'r bar, heb risiau. Mae seddau niferus ar ddau deras yn bellach i fyny'r ardd gyda gasibo.

Mae rhai ardaloedd yn balmantog a rhai wedi'u gosod â gwair.

Gall cadeiriau olwyn gael mynediad i'r haen uchaf o faes parcio'r gwesteion.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ni chaniateir ysmygu yn unrhyw le yn yr adeilad. Mae ardal ysmygu benodol i'w chael yng nghefn y dafarn.

Caniateir cŵn yn y dafarn a rhai ystafelloedd i'r gwesteion ond nid yn y bwyty.

Caniateir Cŵn Tywys drwyddi draw'r adeilad.

Manylion cyswllt

Perchnogion Mick a Nia Taylor, Dafydd Watkin.

Ffôn: 01974 298208

E-bost: info@ytalbot.com

Gwefan: www.ytalbot.com

Cyfeiriad: Y Sgwâr, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JL

Oriau Agor

9.00am- 11.00pm Dydd Sul - Dydd Iau

9.00am-12.00pm Dydd Gwener - Dydd Sadwrn

Gweinir prydau bwyd rhwng 12.00 hanner dydd -2.30pm, 6.00pm -9.00pm

Mae te/coffi a byrbrydau ar gael drwy'r dydd.